Briefing

Wales TUC Cymru

# Cynllluniau Sero Net – Llywodraeth Leol

Nodyn i undebau llafur llywodraeth leol Cymru, Hydref 2022

# Rhagarweiniad

Mae cynghorau lleol yng Nghymru wedi ymrwymo i gyflawni statws sero net erbyn 2030. Mae hyn yn golygu y bydd cynghorau'n newid y ffordd y maent yn gweithredu, fel nad ydynt yn rhyddhau mwy o nwyon tŷ gwydr na'r rhai y maent yn eu hamsugno. Mae hyn yn golygu cwtogi'n sylweddol ar faint o nwy, olew a glo y maent yn ei ddefnyddio, gan gynnwys yn y cynhyrchion a'r gwasanaethau y maent yn eu prynu. Mae hyn yn bwysig i weithwyr oherwydd bydd yn arwain at newidiadau sylweddol a fydd yn effeithio ar swyddi.

# Cytundebau pontio

Mae TUC Cymru eisiau i gyrff cyhoeddus ymgysylltu ag undebau er mwyn trafod y newidiadau hyn fel y gellir rhoi cynllunio gweithlu priodol ar waith sy'n sicrhau:

- Bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i fanteisio ar gyfleoedd swyddi newydd
- Y bydd ymgynghori â'r undebau ynglŷn â newidiadau sylweddol
- Y dylid osgoi colli swyddi ar bob cyfrif. Os nad oes modd eu hosgoi yna dylid cynnig pecyn digolledu i bobl, sy'n cynnwys ail-hyfforddi.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ymrwymo y dylai cynghorau lleol ymgynghori ac ymgysylltu ag undebau ynghylch gweithredu eu cynlluniau sero net.

Er mwyn helpu canghennau i ymgysylltu ar effaith cynlluniau ar eu gweithwyr, mae TUC Cymru wedi llunio rhestr o'r holl gynlluniau sero net rydym wedi gallu dod o hyd iddynt ar wefannau cynghorau.

# Dewch o hyd i gynllun sero net eich cyngor lleol

Mae gofyn i bob cyngor gynhyrchu cynllun sero net – gweler y rhestr isod. Mae'r cynlluniau'n amrywio o ran manylion, gweithredu ac ansawdd ac maent wedi'u cynhyrchu ar adegau gwahanol.

## Cwestiynau a awgrymir i'w gofyn i reolwyr awdurdodau lleol am gynllun sero net y cyngor

- A gytunir ar weithrediad y cynllun gyda'r undebau llafur?
- **Fel rhan o'r cynllun sero net a fydd y rheolwyr yn cytuno i gytundeb pontio sy'n sicrhau:**
    - **Bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i fanteisio ar gyfleoedd swyddi newydd**
    - **Y bydd ymgynghori â'r undebau ynglŷn â newidiadau sylweddol**
    - **Y dylid osgoi colli swyddi ar bob cyfrif. Os nad oes modd eu hosgoi yna dylid cynnig pecyn digolledu i bobl, sy'n cynnwys ail-hyfforddi.**
- A fydd y cynllun gweithredu yn cynnwys y canlynol:
    - targedau clir sy'n ddealladwy, yn weladwy ac yn gyfredol
    - cyfrifoldebau am gyflawni; a systemau ar gyfer cyfathrebu a monitro effeithiau trwy waith gydag undebau llafur
    - sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r cynllun a gwaith y staff drwy'r wefan, sesiynau cynefino staff, cyrsiau hyfforddi priodol a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth
    - bwydo argymhellion gan staff drwy'r undebau llafur i'r uwch dîm rheoli ac adrodd yn ôl ar ganlyniadau.

Efallai bod yr adroddiad mwyaf manwl ac o ansawdd uchel wedi'i gynhyrchu gan gyngor Casnewydd. Er y bydd pob cyngor yn mabwysiadu ymagwedd wahanol, mae'n bur debyg y bydd yn rhaid i bob un, yn y tymor canolig i'r hirdymor, ddilyn syniadau a phrosesau tebyg i'r rhai a amlinellwyd yng nghynllun Casnewydd.

Hefyd wedi'i gynnwys yn y rhestr mae'r cynllun datgarboneiddio cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol. Er bod llawer o ofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu gan gwmnïau preifat a ariennir gan gynghorau, mae hwn yn faes pwysig ar gyfer gweithgarwch a chymorth undebau llafur.

Cynhwysir hefyd ddau adroddiad cenedlaethol ar safon adroddiadau sero net cynghorau. Mae un gan Archwilio Cymru; un arall gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ac rydym wedi cynnwys dolen i gynllun sero net cyffredinol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys eu disgwyliadau ar gyfer cyrff cyhoeddus wedi'u diweddaru.

Ar y cyfan, mae'r cynlluniau sero net a gyhoeddwyd yn 2022 o ansawdd uwch na'r rhai a gyhoeddwyd yn gynharach. Bu rhywfaint o feirniadaeth ar y cynlluniau cynharach gan lywodraeth Cymru, Archwilio Cymru a hyd yn oed CLlLC. Nid yw'n glir a fydd y cynghorau hynny a gyhoeddodd yn gynnar yn gwella eu cynlluniau yng ngoleuni'r adborth yma.

### Tabl: Rhestr o gynlluniau sero net awdurdodau lleol, pryd y'u cyhoeddwyd a dogfennau cysylltiedig

| Bwrdeistref, dinas neu sir | Dyddiad cyhoeddi cynllun sero net |
|---|---|
| Ynys Môn | Mawrth 2022 |
| Blaenau Gwent | Heb ddyddiad, ond mae'n ymddangos ei fod wedi'i gyhoeddi ddiwedd 2019 neu ddechrau 2020 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr (Saes) | Mawrth 2022 |
| Caerffili - strategaeth<br>Caerffili - cynllun gweithredu (Saes) | Heb ddyddiad, ond mae'n ymddangos ei fod wedi'i gyhoeddi ddiwedd 2020 neu ddechrau 2021 |
| Caerdydd | Hydref 2021 |
| Sir Gaerfyrddin | Mawrth 2021 |
| Ceredigion (Saes) | Heb ddyddiad, ond mae'n ymddangos ei fod wedi'i gyhoeddi yn gynnar yn 2021 |
| Conwy | Heb ei ganfod ar-lein ac rydym yn aros am ymateb i gais rhyddid gwybodaeth |
| Sir Ddinbych | Chwefror 2021 |
| Sir y Fflint | Chwefror 2022 |
| Gwynedd | Mawrth 2022 |
| Merthyr Tudful | Mewn ymateb i gais rhyddid gwybodaeth i'r cyngor, fe ddywedon nhw fod y cynllun yn dal i fod ar ffurf drafft ac nad yw ar gael i'r cyhoedd |

| | |
|---|---|
| Sir Fynwy (Saes) | Tachwedd 2021 |
| Castell Nedd Port Talbot | Mai 2020 |
| Casnewydd | 2022 |
| Sir Benfro | 2020 |
| Powys | Heb ddyddiad, ond mae'r cynllun yn dechrau yn 2021 |
| Rhondda Cynon Taf | Heb ddyddiad, ond mae'n ymddangos mai 2022 |
| Abertawe | Heb ddyddiad |
| Torfaen | Ionawr 2022 |
| Bro Morgannwg | Heb ddyddiad, ond mae'n ymddangos mai 2021 |
| Wrecsam (Saes) | Heb ddyddiad, ond mae'n ymddangos mai 2021 |
| | |
| ADRODDIADAU DEFNYDDIOL ERAILL | |
| Adran Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru | Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol yng Nghymru |
| Archwilio Cymru | Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Cynllunio Datgarboneiddio: Adolygiad |

## Cynlluniau sero net llywodraeth leol: Enghreifftiau o gynnwys

Dyma rai enghreifftiau o'r meysydd y mae'r adroddiadau'n eu nodi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithlu, yn enwedig lle nodir meysydd gwaith newydd neu estynedig. Mae'n werth nodi nad yw llawer o'r adroddiadau hŷn yn cynnwys llawer o fanylion. Cyfle efallai i ganghennau ofyn am fwy o fanylion a bod eu cynghorau yn cynhyrchu gwell cynlluniau yn unol ag adborth gan gyrff cenedlaethol.

*Casnewydd (2022)*

- Un o'r ychydig iawn o gynlluniau sero net i sôn am gyfranogiad staff yn yr ymgynghori ar baratoi'r cynllun
- Yn cynnwys cyfeiriad at hyfforddiant staff mewn datgarboneiddio
- Cynlluniau gwres adnewyddadwy
- Seilwaith gwyrdd
- Gonestrwydd a didwylledd ynghylch cyfraddau milltiroedd, fflyd werdd, cynlluniau teithio gwyrdd i staff
- Cynhyrchwyd yn 2022, ar ôl i adborth gan Archwilio Cymru, Llywodraeth Cymru a CLlLC gael ei ddosbarthu

*Sir y Fflint – camau gweithredu'n cynnwys*

- Staff yn cymudo a mesurau i ddatgarboneiddio'r rhain, gan gynnwys aberthu cyflog ar gyfer cerbydau trydan
- Yn anarferol, mae cyfeiriad uniongyrchol at yr angen i "ymgysylltu â gweithwyr ac Undebau Llafur i adnewyddu disgrifiadau swydd i gynnwys cyfrifoldebau newid hinsawdd"
- Meysydd gwaith newydd: fflyd cerbydau trydan; trafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol; tir ar gyfer amsugno carbon.

*Pen-y-bont ar Ogwr – camau gweithredu'n cynnwys*

- Diweddaru disgrifiadau swydd i gynnwys cyfrifoldebau carbon
- Adeiladau - uwchraddio effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys gwres carbon isel a datgomisiynu boeleri ar gyfer rhai newydd
- Teithio gan staff, gan gynnwys cerbydau trydan ac ati
- Cefnogi'r farchnad cerbydau hydrogen
- Seilwaith gwyrdd
- Mwy o ailgylchu, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru